

Bondio ïonig

Amcanion dysgu

- 1 Disgrifio ffurfiant ïonau.
- 2 Lluniadu diagramau dot a chroes o fondio ïonig ac egluro sut mae dellten ïonig yn cael ei dal at ei gilydd.
- 3 Nodi cyfyngiadau amrywiaeth o fodelau a ddefnyddir i gynrychioli bondio ïonig.

Cyflwyniad

Mae bondio ïonig yn digwydd pan fo atomau'n colli ac yn ennill electronau i ffurfio ïonau ac yna mae'r ïonau â gwefr positif a negatiff yn cael eu hatynnu at ei gilydd. Yn y gweithgaredd hwn, byddwch yn dod i ddeall y modelau a'r diagramau a ddefnyddir i gynrychioli'r math hwn o fondio, a'u cyfyngiadau.

Cyfarwyddiadau

1. Gludwch y stribed strwythur ar ymyl eich llyfr gwaith/papur.
2. Dilynwch yr awgrymiadau i ysgrifennu crynodeb o adeiledd a bondio ïonig. Mae'n bosibl y bydd angen i chi ddefnyddio gweryslyfr, canllaw adolygu neu wefan i'ch helpu. Cofiwch ysgrifennu mewn brawddegau llawn, gan ddisgrifio'r cwestiwn yn eich ateb a defnyddio geiriau allweddol priodol.
3. Ar ôl i chi orffen y stribed strwythur dylai fod gennych wybodaeth dda am adeileddau a bondio ïonig. Nawr, rhwch gynnig ar y cwestiwn isod i ddefnyddio eich gwybodaeth mewn cyd-destun newydd.






Geiriau allweddol

Efallai byddwch chi eisiau defnyddio rhai o'r geiriau canlynol yn eich atebion:

Bondio, cyfyngiad, dellten, diagram dot a chroes, electron, ïonau, ïonig, negatiff, positif.

Cwestiwn dilynol

Lluniadwch ddiagram dot a chroes i ddangos beth sy'n digwydd pan fo atomau sodiwm ac ocsigen yn adweithio i gynhyrchu sodiwm ocsid. Trafodwch fanteision a chyfyngiadau'r diagram dot a chroes ar gyfer y cyfansoddyn hwn.

Stribed strwythur Bondio ïonig	Stribed strwythur Bondio ïonig	Stribed strwythur Bondio ïonig	Stribed strwythur Bondio ïonig	Stribed strwythur Bondio ïonig
Eglurwch sut a pham mae metelau'n ffurfio ïonau positif.	Eglurwch sut a pham mae metelau'n ffurfio ïonau positif.	Eglurwch sut a pham mae metelau'n ffurfio ïonau positif.	Eglurwch sut a pham mae metelau'n ffurfio ïonau positif.	Eglurwch sut a pham mae metelau'n ffurfio ïonau positif.
Eglurwch sut a pham mae anfetelau'n ffurfio ïonau negatif.	Eglurwch sut a pham mae anfetelau'n ffurfio ïonau negatif.	Eglurwch sut a pham mae anfetelau'n ffurfio ïonau negatif.	Eglurwch sut a pham mae anfetelau'n ffurfio ïonau negatif.	Eglurwch sut a pham mae anfetelau'n ffurfio ïonau negatif.
<p>Lluniadwch ddiagramau dot a chroes i ddangos sut mae electronau'n cael eu trosglwyddo rhwng y parau canlynol o atomau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Na a F • Mg a O • Mg a Cl <p>Rhowch fformiwlâu'r halwynau sy'n cael eu ffurfio.</p>	<p>Lluniadwch ddiagramau dot a chroes i ddangos sut mae electronau'n cael eu trosglwyddo rhwng y parau canlynol o atomau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Na a F • Mg a O • Mg a Cl <p>Rhowch fformiwlâu'r halwynau sy'n cael eu ffurfio.</p>	<p>Lluniadwch ddiagramau dot a chroes i ddangos sut mae electronau'n cael eu trosglwyddo rhwng y parau canlynol o atomau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Na a F • Mg a O • Mg a Cl <p>Rhowch fformiwlâu'r halwynau sy'n cael eu ffurfio.</p>	<p>Lluniadwch ddiagramau dot a chroes i ddangos sut mae electronau'n cael eu trosglwyddo rhwng y parau canlynol o atomau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Na a F • Mg a O • Mg a Cl <p>Rhowch fformiwlâu'r halwynau sy'n cael eu ffurfio.</p>	<p>Lluniadwch ddiagramau dot a chroes i ddangos sut mae electronau'n cael eu trosglwyddo rhwng y parau canlynol o atomau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Na a F • Mg a O • Mg a Cl <p>Rhowch fformiwlâu'r halwynau sy'n cael eu ffurfio.</p>
 <p>Disgrifiwch sut mae dellten ïonig yn cael ei dal at ei gilydd gan ddefnyddio'r diagram i'ch helpu i ysgrifennu eich ateb.</p>	 <p>Disgrifiwch sut mae dellten ïonig yn cael ei dal at ei gilydd gan ddefnyddio'r diagram i'ch helpu i ysgrifennu eich ateb.</p>	 <p>Disgrifiwch sut mae dellten ïonig yn cael ei dal at ei gilydd gan ddefnyddio'r diagram i'ch helpu i ysgrifennu eich ateb.</p>	 <p>Disgrifiwch sut mae dellten ïonig yn cael ei dal at ei gilydd gan ddefnyddio'r diagram i'ch helpu i ysgrifennu eich ateb.</p>	 <p>Disgrifiwch sut mae dellten ïonig yn cael ei dal at ei gilydd gan ddefnyddio'r diagram i'ch helpu i ysgrifennu eich ateb.</p>
<p>Disgrifiwch y cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â defnyddio'r modelau canlynol i gynrychioli adeiledd ïonig enfawr:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dot a chroes • Pêl a ffon • Diagramau 2D a 3D 	<p>Disgrifiwch y cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â defnyddio'r modelau canlynol i gynrychioli adeiledd ïonig enfawr:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dot a chroes • Pêl a ffon • Diagramau 2D a 3D 	<p>Disgrifiwch y cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â defnyddio'r modelau canlynol i gynrychioli adeiledd ïonig enfawr:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dot a chroes • Pêl a ffon • Diagramau 2D a 3D 	<p>Disgrifiwch y cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â defnyddio'r modelau canlynol i gynrychioli adeiledd ïonig enfawr:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dot a chroes • Pêl a ffon • Diagramau 2D a 3D 	<p>Disgrifiwch y cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â defnyddio'r modelau canlynol i gynrychioli adeiledd ïonig enfawr:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dot a chroes • Pêl a ffon • Diagramau 2D a 3D